OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 619 (Cy.61)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*4 Mawrth 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Mawrth 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) mae'r diffiniad o "Divisional Veterinary Manager" wedi ei ddirymu.

(3) Yn rheoliadau 13(5) a (6) a 16(8), yn lle'r geiriau "appropriate Divisional Veterinary Manager", ym mhob man y maent yn ymddangos, rhodder "Welsh Ministers".

(**1**) O.S 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 1996/3124 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.